

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT

18 MAWRTH 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau, 18 Mawrth 2021.

YN BRESENNOL: Mr David Hytch (Is-Gadeirydd yn Cadeirio)

Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sian Braun, Bob Connah, Paul Cunningham, Gladys Healey, Joe Johnson, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith, Martin White a David Williams

AELODAU CYFETHOLEDIG:

Mrs Lynn Bartlett, Mrs Rebecca Stark a Ms Wendy White

DIRPRWYON: Cynghorydd Sean Bibby (ar ran y Cynghorydd David Healey)

HEFYD YN BRESENNOL: Mynychodd y Cynghorwyr Patrick Heesom a Philippa Earlam (cynrychiolydd y Pwyllgor Safonau), fel arsylwyr

CYFRANWYR:

Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg; Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Ymgynghorydd Dysgu Cynradd; Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a Rheolwr Cyllid Strategol – Masnachol a Thai (ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen) a John Grant, Uwch Ymgynghorydd Dysgu – Ymgysylltu (ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen)

Roedd Simon Budgen o Ysgol Uwchradd Penarlâg a Jim Connelly o Ysgol Uwchradd y Fflint hefyd yn bresennol fel arsylwyr ar gyfer eitem 6 ar y Rhaglen.

HEFYD YN BRESENNOL:

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

39. DATGAN CYSYLLTIAD (YN CYNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorwyr Bob Connah a Tudor Jones gysylltiad personol yn Eitem 5 ar y Rhaglen – Diweddariad ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Esboniodd yr Hwylusydd fod y Cynghorydd Jones wedi cael cadarnhad gan y Swyddog Monitro fod y cysylltiad yn un personol ac na ddylai gymryd rhan yn y bleidlais ar yr argymhelliad yn ymwneud â Chanolfan Hamdden Treffynnon yn yr adroddiad.

Datganodd y Cynghorwyr Paul Cunningham, Gladys Healey, Dave Mackie, Tudor Jones a Mr. David Hytch a Mrs. Rebecca Stark gysylltiad personol yn Eitem 6 ar y Rhaglen – Diweddariad ar Gyllid y Cyngor ar gyfer Ysgolion, fel Llywodraethwyr Ysgolion.

Datganodd y Cynghorydd Gladys Healey gysylltiad personol yn Eitem 7 ar y Rhaglen – Adroddiad Hunanwerthuso'r Gwasanaethau Addysg, fel Llywodraethwr yn Ysgol Uwchradd Castell Alun.

40. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021.

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo, fel a gynigiwyd ac a eiliwyd gan y Cynghorwyr Tudor Jones a Martin White.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

41. PRESENOLDEB MEWN YSGOLION A GWAHARDDIADAU

Cyflwynodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu (Ymgysylltu) drosolwg o bresenoldeb mewn ysgolion a gwaharddiadau ar gyfer blwyddyn 2019/20, a gafodd eu heffeithio gan y pandemig, fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Rhoddodd wybodaeth am y tueddiadau a welwyd ar gyfer presenoldeb, absenoldeb rheolaidd a pharhaol a gwaharddiadau cyfnod penodol a amlygwyd gan Estyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at y tabl a ddangosai waharddiadau cyfnod penodol a gofynnodd pa brosesau sy'n bodoli er mwyn deall pam y gwelir cynnydd yn y ffigurau hyn a pha gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw. Wrth ymateb, rhoddodd yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu wybodaeth am y gwaith mae'r tîm yn ei wneud, sy'n fwy rhagweithiol, gan weithio gyda phlant, teuluoedd, penaeithiaid a chymunedau er mwyn deall materion yn well yn gynharach.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorwyr Paul Cunningham a Dave Mackie.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid nodi'r data presenoldeb ar gyfer ysgolion Sir y Fflint a'r camau gweithredu a gymerwyd gan swyddogion i gefnogi mesurau ymgysylltu a diogelu yn ystod y cyfnod clo; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn cydnabod bod cyfnod clo COVID-19 a chau ysgolion wedi effeithio ar y data a ddarparwyd.

42. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr adroddiad yn cadarnhau mai cyfarfod nesaf y Pwyllgor fydd y cyfarfod ar y cyd gyda Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gynhelir ar 17 Mehefin. Cynhelir cyfarfod arferol nesaf y Pwyllgor ar 1 Gorffennaf pan roddir cyflwyniad am Adroddiad Blynyddol GwE am y Cyfryngau Cymdeithasol a Diogelwch ar y We. Roedd yr holl gamau gweithredu a gododd o'r cyfarfodydd blaenorol wedi eu cwblhau.

Gwnaeth yr Hwylusydd hefyd atgoffa Aelodau am y sesiynau briffio y Tu Allan i'r Sir a drefnwyd ar gyfer yr holl Aelodau a'r Aelodau cyfetholedig ar 22 Mawrth.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorwyr Paul Cunningham a Mrs Lynne Bartlett.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

43. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DROSGLWYDDO ASED AU

CYMUNEDOL (CAT)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a'r Rheolwr Cyllid Strategol (Masnachol a Thai) a rhoddwyd trosolwg o'r cynnydd a wnaed gyda'r ddau Drosglwyddiad Asedau Cymunedol mwyaf a sut mae'r pandemig wedi effeithio arnyn nhw. Cafodd Cambria Aquatics ei drosglwyddo yn 2016 a dechreuodd Canolfan Hamdden Treffynnon fasnachu yn 2017. Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth fanwl ar fanteision hyn i'r Cyngor, yr effaith ariannol arwyddocaol oherwydd y pandemig, ynghyd â'r camau rhagofalus a gymerwyd er mwyn ailagor yn ddiogel. Rhoddodd wybodaeth hefyd am y cynlluniau cymorth grant a'r cyfleoedd ffyrlo. Talodd deyrnged i'r ffordd mae'r sefydliadau hyn wedi cael eu rheoli a bod ganddyn nhw gefnogaeth gref iawn gan gymunedau a theimlai'n hyderus y byddai hyn yn parhau ar ôl y pandemig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at yr anawsterau digynsail mae'r ddau sefydliad wedi eu hwynebu ac awgrymodd y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu atyn nhw i ganmol gwaith y rheolwyr a'r gwirfoddolwyr am y ffordd maen nhw wedi ymdrin â'r sefyllfa. Cytunodd yr Hwylusydd i anfon llythyr at y ddau sefydliad ar ran y Pwyllgor.

Ymdriniwyd â'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad ar wahân. Cafodd yr argymhelliad cyntaf a'r ail un eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Martin White a Mrs. Rebecca Stark. Cafodd y trydydd argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorwyr Janet Axworthy a Gladys Healey. Ni wnaeth y Cynghorydd Tudor Jones gymryd rhan yn y bleidlais ar y trydydd argymhelliad.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi cynnydd y Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol;
- (b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cymorth grant sy'n parhau ar gyfer Cambrian Aquatics yn 2021/22; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cymorth grant sy'n parhau ar gyfer Canolfan Hamdden Treffynnon yn 2021/22.

44. ADRODDIAD HUNANWERTHUSO'R GWASANAETHAU ADDYSG

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad hunanwerthuso ac esboniodd, oherwydd y pandemig, nad yw'r wybodaeth wedi'i strwythuro yn y ffordd arferol yn erbyn Fframwaith Estyn ar gyfer archwilio Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol, sydd wedi ei ohirio dros dro ynghyd â chasgliadau data allweddol gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd at adroddiadau blaenorol i gyfarfodydd a fynychwyd gan gydweithwyr o GwE ac Estyn, gydag Adolygiad Thematig y Gwasanaethau Rhanbarthol a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf, ac ynghlwm â'r adroddiad roedd y llythyr a anfonwyd at Gyngor Sir y Fflint gan Estyn a oedd yn crynhoi asesiad cadarnhaol o'r gwaith a wnaed mewn ysgolion yn ystod y cyfnod hwn. Darparwyd gwybodaeth hefyd am y camau nesaf a'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor.

Dywedodd y Cadeirydd fod fformat yr adroddiad yn ddefnyddiol iawn er mwyn darparu gwybodaeth am yr holl feysydd gwasanaeth. Gwahoddodd gwestiynau ar bob un o'r meysydd gwasanaeth, fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Gwasanaeth Cynhwysiant a Datblygu

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y paragraff olaf ar dudalen 54 a gofynnodd pam nad yw'r hyfforddiant ar gael i bawb, gan gofio ei fod nawr yn gynnig ar-lein heb gyfyngiadau ymarferol. Wrth ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai'n cyfeirio hyn at yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Datblygu) i roi ymateb.

Gofynnodd Mrs Stark a ystyriwyd darpariaeth ar gyfer gwasanaethau cwnsela a seicoleg ar gyfer pobl ifanc wrth symud ymlaen ac a yw ysgolion yn gwybod am ddisgyblion sydd eisoes angen y gefnogaeth honno. Wrth ymateb cadarnhaodd y Prif Swyddog fod y Comisiynydd Plant wedi tynnu sylw at hyn a bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cwnsela i gefnogi gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y gorffennol ac y byddai hyn yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen. Mae rhaglen adfer gyfannol gref ar waith gan gydweithwyr yn y byd lechyd a CAMMS a Gwasanaethau Plant er mwyn sicrhau model gofal estynedig i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn. Ychwanegodd fod cyllid ychwanegol ar gael y llynedd i gefnogi iechyd a lles emosiynol pobl ifanc.

Gwasanaeth Cyfle Cynnar

Gofynnodd y Cadeirydd am esboniad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws. Wrth ymateb, esboniodd y Prif Swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi atal y cynnig gofal plant dros dro a chreu Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws ac, yn debyg i ysgolion a fu'n cynnig gofal plant i weithwyr allweddol yn ystod y pandemig, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn er mwyn cynnig yr un gefnogaeth i weithwyr allweddol. Cafodd ei reoli gan y tîm Gofal Plant yn adran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gofynnodd Mrs Stark a oedd Llywodraeth Cymru wedi rhagweld effaith y bwch mewn addysg ar gyfer dysgwyr ifanc yn y blynyddoedd cynnar ac a fyddai hyn yn cael ei ystyried wrth fesur eu perfformiad. Wrth ymateb, cadarnhaodd y

Prif Swyddog fod hyn yn cael ei drafod a chyfeiriodd at Gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3 i 7 oed sy'n edrych ar y plentyn a'u datblygiad personol a chymdeithasol yn gyntaf, ac yna'n darparu cefnogaeth mewn meysydd dysgu gwahanol. Cadarnhaodd fod y blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan flaenllaw yn y Rhaglen Adfer Genedlaethol a'i bod yn rhan o drafodaethau er mwyn siapio'r gwaith hwnnw wrth symud ymlaen.

Cadarnhaodd yr Arweinydd, fel Llefarydd Addysg CLILC, ei fod yn pwysleisio beth yw anghenion y Cyfnod Sylfaen gan mai'r grŵp oedran hwn oedd y lleiaf abl i fanteisio ar unrhyw fath o ddysgu cyfunol ar-lein. Roedd yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mai'r Cyfnod Sylfaen fyddai'r blynyddoedd cyntaf i ddychwelyd i'r ysgol a bod y cyfleoedd mae'r plant hynny wedi eu colli yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, sydd wedi darparu adnoddau sylweddol ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a fyddai'n galluogi pob plentyn a pherson ifanc i dderbyn y cymorth hwnnw pan fydden nhw'n dychwelyd i'r ysgol.

Soniodd y Cynghorydd Paul Cunningham fod yr elfen iaith a lleferydd o hyn yn bwysig fel bod y plant ifanc yn gallu mynegi eu hunain. Dywedodd y Prif Swyddog na fyddai'r holl blant angen cefnogaeth gyda'u hiaith a'u lleferydd ac y byddai llawer o blant wedi cael cefnogaeth gan eu rhieni yn ystod y cyfnod hwn ac wedi elwa o'r amser hwnnw yn eu swigen deulu. Ychwanegodd yr Arweinydd fod angen estyn diolch i rieni a gofalwyr am helpu gydag addysg eu plant yn ystod y cyfnod hwn ac edrychai ymlaen at weld yr holl blant yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl y Pasg.

Gwasanaeth Darpariaeth Ieuenctid Integredig

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dudalen 71 yr adroddiad a'r cyfeiriad a wneir at gael Gweithiwr Ieuenctid Pwrpasol yn gweithio un diwrnod yr wythnos mewn 5 Ysgol Uwchradd a gofynnodd a oedd hyn yn ateb y galw neu a oedd diffyg adnoddau'n atal yr ysgolion eraill rhag cymryd rhan. Wrth ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog mai diffyg adnoddau yw'r broblem a bod gwaith yn mynd rhagddo i gael Gweithiwr Ieuenctid ymhob ysgol ond bod hyn yn dibynnu ar ailalinio ac arbedion effeithlonrwydd adnoddau o fewn y gwasanaeth.

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint a Sorted Sir y Fflint

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd newidiadau wedi eu gwneud i'r Polisi Gwaharddiadau a'r Polisi Camddefnyddio Sylweddau ac ai'r mater i'w adolygu fyddai ystyried a yw'r drosedd gyntaf o gael eu dal â chyffuriau yn eu meddiant yn arwain at waharddiad parhaol. Wrth ymateb, esboniodd y Prif Swyddog eu bod wedi edrych ar y rhesymau dros wahardd disgyblion a bod camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad treisgar yn rhan o hynny. Rhaid ailedrych ar y polisi'n rheolaidd er mwyn galluogi ysgolion i fod yn gadarn yn y ffordd maen nhw'n rheoli'r troseddau hyn a bod y bobl ifanc hyn weithiau'n ddiodefswyr mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'w rheolaeth a bod angen i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid chwarae rhan fwy blaenllaw mewn ysgolion.

Gofynnodd Ms Wendy White a yw'r polisi dim goddefgarwch ynghylch troseddau'n ymwneud â chyffuriau mewn ysgolion hefyd wedi ystyried cynlluniau ar y cyd gyda phobl sy'n defnyddio neu'n gwerthu cyffuriau. Cytunodd y Prif

Swyddog y byddai'n trafod yr awgrym hwn ymhellach gyda Ms White y tu allan i'r cyfarfod.

Gwasanaeth Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Uned Cyfeirio Disgyblion a gofynnodd a oes cynlluniau i ddefnyddio neu i gael gwared â'r asedau sydd ddim yn cael eu defnyddio yno mwyach. Wrth ymateb, cadarnhaodd y Prif Swyddog y byddai'r rhain y tu hwnt i gyfrifoldeb y portffolio ac y bydden nhw felly'n cael eu dychwelyd i'r tîm asedau cyfalaf.

Dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn adroddiad sylweddol ac y byddai'n werth ystyried y fformat eglur ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorwyr Tudor Jones a Dave Mackie.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r adroddiad; a
- (b) Nodi'r adroddiad thematig cadarnhaol a wnaed gan Estyn ar waith y gwasanaethau addysg yn Sir y Fflint i gefnogi plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig.

45. YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR GYLLID Y CYNGOR AR GYFER YSGOLION

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i amlinellu i'r Pwyllgor y cynnig i rannu'r £1m ychwanegol a neilltuwyd ar gyfer ysgolion uwchradd yng nghyllideb 2021/22. Oherwydd amseriad a diben y cyllid, bydd y Cyngor yn dyrannu'r cyllid yn 2021/22 fel dyraniad atodol.

Yn arolygiad Estyn o'r Awdurdod Lleol yn 2019, mynegwyd pryderon am natur hirdymor y diffygion yng nghyllideb rhai ysgolion uwchradd, ac fel rhan o'u hadroddiad arolygu, un o'r prif argymhellion oedd y dylai'r Awdurdod gymryd camau i fynd i'r afael â'r diffygion. Roedd y cyllid ychwanegol yn y gyllideb ar gael yn bennaf er mwyn darparu adnoddau ychwanegol i'r ysgolion hynny sydd â phroblemau ariannol.

Esboniodd y Prif Weithredwr nad oedd datrysiad ariannol ar gael i ymdrin â'r diffygion, ond drwy weithio'n galed i osod cyllideb 2021/22, ynghyd ag edrych ar y cyfleoedd yn setliad Llywodraeth Cymru i ail alinio cyllid ychwanegol i Ysgolion, cafwyd datrysiad i ddarparu cyllid ychwanegol i ysgolion uwchradd. Wrth esbonio sut y dyrannwyd y cyllid, soniodd am y pryderon a glywodd rhai Penaethiaid a Llywodraethwyr Ysgolion. Dywedodd fod yr Awdurdod yn cydnabod bod cyllidebau ysgolion uwchradd wedi bod dan bwysau cyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly byddai cyfran o'r cyllid yn mynd i'r ysgolion hynny nad oedd wedi cwrdd â'r egwyddorion, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Mynegodd Arweinydd y Cyngor ei gefnogaeth i'r sylwadau a wnaed gan y Prif Weithredwr a dywedodd fod y Cyngor Sir yn llwyr gefnogi'r cyllid ychwanegol arfaethedig. Soniodd am y sefyllfa heriol sy'n wynebu ysgolion o ganlyniad i gyni

ariannol ond dywedodd fod gan bobl ifanc ar draws Sir y Fflint yr hawl i gael mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) na ddylai pobl ifanc mewn ysgolion ar draws Sir y Fflint ddiodef oherwydd amrywiaeth o ffactorau cymhleth iawn sydd wedi arwain at y diffygion hyn. Rhoddodd esboniad manwl o'r egwyddorion dyrannu, fel y'i hamlinellwyd yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys ffactorau amddifadedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion a fydd yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Er bod hyn i'w groesawu, dywedodd pa mor bwysig yw sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyllideb y Cyngor er mwyn helpu i fynd i'r afael â diffygion ysgolion.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr. Jim Connelly, Pennaeth Ysgol Uwchradd y Fflint, a oedd hefyd yn bresennol, i wneud sylw ar y cynnig.

Diolchodd Mr Jim Connelly i'r Cadeirydd am y cyfle i fynychu'r cyfarfod a chyfarfod y Pwyllgor. Croesawodd y sylwadau a wnaed gan y Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Prif Swyddog, a dywedodd eu bod wedi esbonio rhywfaint o sail resymegol y cynnig a phe bai Ffederasiwn y Penaethiaid Uwchradd wedi derbyn yr wybodaeth hon o flaen llaw, byddai wedi lleddfu rhywfaint ar y pryderon. Gofynnodd a ellid gwella'r broses ymgynghori yn y dyfodol a soniodd am y penderfyniadau anodd a wnaed gan bob ysgol yn Sir y Fflint, o ganlyniad i gyni ariannol a chwtdogi ar gyllidebau ysgolion. Dywedodd ei fod yn deall yn llwyr fod y Cyngor wedi ceisio rhoi cymaint o arian â phosibl i ysgolion ar draws Sir y Fflint ond pryderai y byddai cynnig cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r diffygion hyn yn gallu gosod cysail beryglus i ysgolion yn y dyfodol wrth geisio rheoli'r diffygion hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at sut y cyfrifwyd y cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â diffygion mewn ysgolion uwchradd a dywedodd fod pryderon ynghylch sut gallai'r cyllid hwn barhau yn y dyfodol. Pe bai'r cyllid yn parhau, dywedodd y byddai dwy o'r ysgolion yn clirio eu diffygion yn gymharol gyflym ond byddai angen arian ychwanegol ar yr ysgolion eraill am nifer o flynyddoedd. Esboniodd mai tybiaeth yw hyn gan nad yw'r adroddiad yn ymdrin â'r mater. Dywedodd y dylid rhoi cydnabyddiaeth i bob ysgol yn Sir y Fflint am weithio'n galed i fynd i'r afael â'u diffygion ac aros o fewn y cyllidebau a ddyrannwyd ar eu cyfer, ac roedd yn cydnabod bod Sir y Fflint yn parhau i fod yn Gyngor sy'n cael ei danariannu. Roedd yn cefnogi dyrannu cyllid yn rheolaidd ac awgrymodd y gellid ystyried hyn fel rhan o'r fformiwla ariannu ysgolion. Teimlai hefyd y dylid ystyried safbwyntiau Penaethiaid Uwchradd wrth adolygu cyllid ysgolion uwchradd yn y dyfodol.

Soniodd y Cadeirydd y byddai'r cynnig yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion. Croesawodd gadarnhad y Prif Weithredwr ynghylch tegwch ac mai'r nod yw ymdrin â'r diffygion drwy roi symiau tybiannol i ysgolion. Ychwanegodd fod yr holl ysgolion o dan bwysau sylweddol a'i fod yn falch fod y Cyngor yn gallu cynnig mwy o arian i fynd i'r afael â'r diffygion. Cyfeiriodd at y modd y mae Cynghorau'n cael eu tanariannu a'r sylwadau a wnaed gan y Prif Weithredwr y dylid dyrannu isafsymiau a fyddai'n galluogi Cynghorau i ddarparu eu gwasanaethau, yn ogystal â dyraniad ar ben hynny i gwrdd ag anghenion amddifadedd ayb ac, os felly, dylid dyrannu'r isafswm posibl i bob ysgol ac yna rhoi swm ychwanegol ar ben hynny.

O safbwynt tegwch, dywedodd yr Arweinydd na chredai y dylai maint a hyfywedd ysgol gael eu hystyried wrth feddwl am y ddarpariaeth addysgol sy'n cael ei chynnig i blant ar draws Sir y Fflint. Esboniodd fod llawer o waith craffu wedi'i gynnal ar ddiffygion ysgolion a chyfeiriodd at y gwaith a wnaed ganddo ef a'r Prif Swyddogion, ynghyd â'r tîm cyllid, i ystyried yr holl opsiynau er mwyn datrys hyn. Pwysleisiodd ei sylwadau blaenorol a dywedodd fod yr Aelodau wedi gwneud y penderfyniad cywir yn y Cyngor Sir er mwyn sicrhau mynediad i bob plentyn at yr un cwricwlwm sylfaenol.

Dywedodd y Prif Weithredwr, wrth ymateb i'r sylwadau a wnaed gan Mr. Connolly, nad oedd eisiau gweld sefyllfa lle byddai ysgolion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Roedd yn gwerthfawrogi'r holl waith a wnaed gan y Penaethiaid a'r staff i fantoli cyllidebau a cheisio lleihau eu diffygion. Wrth ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Mackie, esboniodd pe bai'r cyllid ychwanegol wedi ei rannu rhwng pob Ysgol, ni fyddai hynny'n cael unrhyw effaith ar leihau diffygion Ysgolion. Wrth gynyddu'r gwariant fesul disgybl, ychwanegodd nad yw'n bosibl i gadarnhau beth fydd setliadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ond bydd y Cyngor yn parhau i bwysleisio'r achos bod angen mwy o gyllid er mwyn cwrdd â'r her o ymdrin â diffygion Ysgolion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr am ei sylwadau a dywedodd ei fod yn ddiolchgar iawn am y cyllid ychwanegol i ysgolion a fyddai'n fuddiol iawn. Er ei fod yn credu y gwnaed pob ymdrech gan y Cyngor dros nifer o flynyddoedd i gynnal cyllidebau ysgolion, gwnaed toriad o 2% i'r gyllideb addysg yn 1997 ac nid yw'r arian hwn wedi dychwelyd o gwbl.

Ymatebodd y Prif Swyddog i'r sylwadau am ymgynghori, ac yn ystod cyfarfod gyda Ffederasiwn y Penaethiaid Uwchradd dywedodd eu bod yn cydnabod y gallai'r cyfathrebu fod yn well ynghylch y cynnig i ddarparu cyllid ychwanegol, ond cyfeiriodd at y berthynas gadarnhaol a thryloyw sy'n bodoli gyda Phenathiaid a chydweithwyr. Cyfeiriodd at y broses gadarn i gefnogi ysgolion sydd â diffyg yn eu cyllideb a bod y Cyngor wedi cryfhau'r protocol ynghylch diffyg trwyddedig yn dilyn yr argymhellion gan Estyn. Dywedodd fod nifer sylweddol o ffactorau dros gyfnod hir wedi arwain at y diffygion hynny a bod y Penaethiaid wedi gweithio'n andros o galed i geisio eu rheoli.

Wrth ymateb i sylwadau ynghylch heriau a chraffu, dywedodd y Prif Swyddog ei bod yn croesawu'r her gan y Pwyllgor.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones am gadarnhad na fydd y cyllid ychwanegol mynd yn syth i'r Ysgolion, ond y bydd yn cael ei ddefnyddio i leihau'r diffygion sydd gan y Cyngor. Awgrymodd y dylid newid y geiriad yn argymhelliad (a) i "Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r egwyddorion fel sylfaen i ddyrannu'r £1m o gyllid ychwanegol i leihau diffygion ysgolion uwchradd yn 2021/22, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad". Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cynghorydd Jones am y sylw defnyddiol. Gofynnodd am arweiniad gan y Pwyllgor ynghylch y camau a gymerir o un flwyddyn i'r llall yn y dyfodol yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd, er mwyn cyflwyno achos ar gyfer buddsoddiadau tebyg o un flwyddyn i'r llall, gan dybio bod y setliad gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod ac am ateb y cwestiynau gan y Pwyllgor. Awgrymodd y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu at Mrs. Lucy Morris a ymddeolodd o'r Cyngor yn ddiweddar, i ddiolch iddi am y gefnogaeth a roddodd i ysgolion yn ystod cyfnod ariannol heriol, yn ogystal â'r gefnogaeth a roddodd i'r Pwyllgor. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth, cafodd yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad, ynghyd â'r newid i argymhelliad 1 a awgrymwyd gan y Cynghorydd Tudor Jones, a chyda'r argymhelliad ychwanegol canlynol, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Tudor Jones a Gladys Healey:-

- Bod y Pwyllgor yn cefnogi bwriad y Cyngor i godi swm yr arian i gefnogi ysgolion o un flwyddyn i'r llall, yn unol â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r egwyddorion fel sylfaen i ddyrannu'r £1m o gyllid ychwanegol i leihau diffygion ysgolion uwchradd yn 2021/22, fel yr amlinellir yn yr adroddiad;
- (b) Nodi'r dyraniadau, fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi bwriad y Cyngor i godi swm yr arian i gefnogi ysgolion o un flwyddyn i'r llall, yn unol â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

46. RHAGLEN DDIGIDOL HWB

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dysgu Cynradd adroddiad a oedd yn rhoi manylion am sut y rhoddir rhaglen genedlaethol HWB ar waith yn ysgolion Sir y Fflint a'r gwaith sy'n cael ei wneud i gynyddu cymarebau dyfeisiau i ddisgyblion.

Yn ystod y pandemig, cyfathrebwyd â'r ysgolion yn rheolaidd a chynhaliwyd dadansoddiad o'r bylchau o ran y dyfeisiau a oedd ar gael. Roedd hyn yn cynnig gwybodaeth am faint o ddyfeisiau a oedd gan yr ysgolion yn barod, a oedd yn galonogol iawn, ond roedd angen mwy er mwyn bodloni'r fformiwla y cytunwyd arni gyda'r ysgolion. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dysgu Cynradd fod angen 6,000 yn fwy o ddyfeisiau yn dilyn y cyflenwad diwethaf a roddwyd i ysgolion yn Ionawr a Chwefror a chadarnhaodd hefyd y disgwylir archeb Chrome Books gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai a fydd yn diwallu rhai o'r anghenion yn y dadansoddiad o'r bylchau.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan yr ysgolion am ddysgu cyfunol a dangoswyd dadansoddiad manwl yn adran 1.04 yr adroddiad. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dysgu Cynradd fod dyfeisiau MiFi wedi eu caffael fel rhan o HWB a bod y rhain wedi cael eu rhoi i deuluoedd nad oedd â digon o gysylltiad Wi-Fi. Cyfeiriodd at Sefydliad Neumark a gefnogodd bob un o Awdurdodau Gogledd Cymru i gaffael 110 o ddyfeisiau eraill a chafodd tua 80 neu 90 o ddyfeisiau eu rhoi'n uniongyrchol i ysgolion lle roedd eu hangen. Bydd model cynaliadwy'n cael ei gyflwyno drwy'r fformiwla ariannu Ysgolion i sicrhau bod gan bob ysgol yr un offer gan y bydd angen i ysgolion nawr gynnal yr un lefel o ddyfeisiau, yn y gobaith y bydd gan yr holl ddysgwyr fwy o ddyfeisiau i wneud eu gwaith cartref.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at yr effaith ariannol ar ysgolion er mwyn diweddarau'r dyfeisiau'n barhaus a thalu am waith trwsio ayb a allai fod yn gostus yn y dyfodol. Deallai fod hyn yn cael ei ystyried fel dyraniad ar gyfer cyllid yn y fformiwla cyllideb ysgolion a gofynnodd a yw'r ysgolion yn ymwybodol o'r goblygiadau o ran cost. Wrth ymateb, dywedodd yr Ymgynghorydd Dysgu Cynradd y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei roi i Ysgolion gan y byddai dyfeisiau digidol nawr yn rhan allweddol o addysg disgyblion ac offer digidol yw'r adnodd newydd y mae angen i ysgolion gyllidebu ar ei gyfer. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Cyllideb Ysgolion.

Gofynnodd y Cynghorydd Smith am eglurder ar Rwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA). Wrth ymateb, dywedodd y Prif Swyddog mai hwn yw rhwydwaith y rhyngrwyd sy'n teithio drwy rwydwaith y cyngor i ysgolion er mwyn sicrhau bod y waliau tân yn cael eu cynnal, ynghyd â chyflymder y rhyngrwyd. Ychwanegodd yr Ymgynghorydd Dysgu Cynradd fod hyn yn cael ei fonitro gan adran TG y Cyngor a bod gan fwyafrif yr ysgolion gapasiti digonol yn ystod y cyfnod clo. Os byddai unrhyw broblemau gyda'r lled band a ddefnyddiwyd gan ysgolion i gyflwyno gwersi, cadarnhaodd y Prif Swyddog y gallai ysgolion uwchgyfeirio hyn at yr adran TG.

Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion) bod y term PSBA yn cyfeirio at Brosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus ar draws nifer o rwydweithiau'r sector cyhoeddus drwy Gymru gyfan lle gellid monitro defnydd. Mae'r ffordd y cyflwynir addysg wedi newid dros y misoedd diwethaf gyda mwy o wersi'n cael eu cynnal dros y we mewn ysgolion ac o bell. Roedd newidiadau a wnaed i'r capasiti a data defnydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn galluogi ysgolion i flaengynllunio er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti ar gael yn ystod y cyfnodau prysur. Bydd ysgolion a llywodraethwyr ysgolion yn ymwneud â'r cynlluniau strategol ar gyfer eu hysgol er mwyn diogelu costau ar gyfer cynnal ac adnewyddu dyfeisiau yn y dyfodol a nododd mor dda mae disgyblion wedi gwella'u sgiliau digidol a'r ffordd maen nhw wedi croesawu'r byd digidol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y llwyddiannau rhyfeddol a welwyd a thalodd deyrnged i'r Cyngor a'r tîm TG Corfforaethol am y gefnogaeth a roddwyd i Ysgolion. Dywedodd ei fod yn ffyddiog fod lled band yn cael ei fonitro, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny sydd â chyflymder rhyngrwyd araf.

Gofynnodd Mrs Rebecca Stark pa fynediad a roddir i ddisgyblion bori'r we. Ai dim ond gwefannau addysg y gellir eu gweld drwy eu dyfeisiau neu a ellir gweld gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol ayb hefyd. Wrth ymateb, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dysgu Cynradd mai HWB yw'r platfform ar gyfer dysgu digidol a rhoddir cyfeiriadau e-bost HWB i ddysgwyr ac athrawon. Ychwanegodd y gallai disgyblion ddefnyddio dulliau diogel i bori'r we fel rhan o'u gwaith i chwilio am bethau ar-lein gyda'r platfformau google a ddarperir gan HWB. Ychwanegodd y Prif Swyddog y gallai disgyblion gael mynediad at unrhyw beth ar y rhyngrwyd ond drwy ddefnyddio wal dân HWB a'r Cyngor, mae'n sicrhau eu bod wedi eu diogelu ac mae angen i riant arwyddo datganiad diogelu ar gyfer y dyfeisiau MiFi er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn defnyddio'r ddyfais honno'n briodol.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan y Cynghorwyr Paul Cunningham ac Ian Smith.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi sut y rhoddir rhaglen genedlaethol HWB ar waith yn ysgolion Sir y Fflint a'r gwaith sy'n cael ei wneud i gynyddu cymarebau dyfeisiau i ddisgyblion; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn ffyddiog nad oedd dysgwyr Sir y Fflint dan unrhyw anfantais yn ddigidol yn ystod y cyfnod clo oherwydd camau gweithredu effeithiol gan yr ysgolion a Gwasanaethau Addysg a TG y Cyngor.

47. YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y STRATEGAETH ADFER

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) adroddiad i roi cipolwg ar y gwaith cynllunio ar gyfer adfer ym mhorthffolio'r Pwyllgor hwnnw. Cyfeiriodd at gofrestr risg y portffolio a'r camau lliniaru risg sydd ynghlwm wrth yr adroddiad a soniodd am y risg fwyaf sylweddol; cyllid i ysgolion uwchradd, a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod.

Roedd y Cadeirydd yn uchel ei glod am y gefnogaeth a gafodd ysgolion gan y tîm Adnoddau Dynol a gofynnodd a ellid estyn gair o ddiolch iddyn nhw gan y Pwyllgor.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad, a amlinellwyd yn yr adroddiad, gan Mrs Rebecca Stark a'r Cynghorydd Dave Mackie.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r Gofrestr Risg wedi'i diweddarau a'r Camau Lliniaru Risg, fel y'i hamlinellwyd yn yr adroddiad.

48. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.45pm)

.....

Y Cadeirydd